# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Mawrth 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ41751, a wnaiff wneud sylw ar faint o grant RSA sydd wedi'i gynnig i T-Mobile ac a wnaiff ddweud beth yw union bwrpas y grant hwn. (WAQ42178)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Mewn perthynas â Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet dyddiedig 3 Mawrth 2005, a all y Gweinidog ddweud beth yw union gost y prydlesau y cyfeirir atynt yn nhrydydd paragraff y dudalen gyntaf. (WAQ52186)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd sydd â a) peiriannau gwerthu traddodiadol b) peiriannau gwerthu traddodiadol yn cynnig nifer fach o byrbrydau iachach a c) peiriannau gwerthu sydd dim ond yn cynnig dewisiadau iachach. (WAQ42182)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar b'un a yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal unrhyw ymchwil i'r posibilrwydd o osod peiriannau gwerthu iach mewn ysgolion ac a fydd esiampl y Peiriant Gwyrdd yn cael ei hystyried wrth wneud unrhyw waith yn y maes hwn yn y dyfodol. (WAQ52189)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba ohebiaeth y mae ei swyddogion wedi'i derbyn ynghylch peiriannau gwerthu mewn ysgolion. (WAQ42181)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol fod nifer o ysgolion yng Nghymru yn cael gwared ar beiriannau gwerthu traddodiadol ac yn eu lle, yn cynnig dewisiadau iachach, sef cynnyrch naturiol sy'n cynnwys llai o halen, brasder a siwgwr ac heb flasau artiffisial, lliwiau, melysyddion, cadwolion ac ychwanolion. (WAQ42184)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar beiriannau gwerthu iach mewn ysgolion. (WAQ42183)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi

Llywodraeth Cynulliad Cymru ar beiriannau gwerthu mewn ysgolion. (WAQ42185)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae ei swyddogion wedi'u cael â swyddogion o'r Adran Iechyd neu'r Adran Addysg a Sgiliau i drafod peiriannau gwerthu mewn ysgolion. (WAQ42179)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A ellir cynnwys tir sydd wedi'i gomisiynu gan y Goron yng nghynigion dynodi tir Tan 8. (WAQ42177)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i sicrhau bod y rheini sy'n dioddef o asthma yng Nghymru yn cael cynnig cynllun asthma personol i'w galluogi i reoli'u symptomau ac i osgoi pyliau asthma sy'n eu gwanychu. (WAQ42176)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddtganiad ar ba asesiadau sydd wedi'u gwneud o'r arweiniad ar beiriannau gwerthu mewn ysgolion a geir yn y ddogfen Glasbrint Byw yn Iach gan yr Adran Iechyd ac ar ba mor berthnasol yw i ysgolion Cymru. (WAQ52188)